

Ymgynghori ar Ddrafft – Cwestiynau

Rydym yn croesawu adborth ar yr Adroddiad drafft hwn, ac wedi cynnwys rhai cwestiynau ychwanegol lle byddem yn gwerthfawrogi eich barn. Daw'r cyfnod ymgynghori i ben ar 1 Rhagfyr 2022 a gallwch naill ai anfon e-bost atom gyda'ch sylwadau neu lenwi ffurflen ar ein gwefan [YMA](#).

Cwestiwn 1

Mae'r Panel wedi parhau i ddefnyddio'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE) a gyhoeddir gan y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol fel y meincnod ar gyfer pennu cyflog sylfaenol aelodau etholedig prif gynghorau. Mae cynnydd cymesur cyfatebol wedi'i gynnig i aelodau'r Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a'r Awdurdodau Tân ac Achub. Mae'r Panel wedi parhau i gyfeirio at yr Arolwg ASHE diweddaraf a gyhoeddwyd yn 2021. Ydych chi'n cytuno y dylai'r elfen cyflog sylfaenol fod yn gyfylltiedig â data [ASHE 2021](#)?

Ydw

Nac ydw

Dim barn

<input type="checkbox"/>
<input type="checkbox"/>
<input type="checkbox"/>

Unrhyw sylwadau ychwanegol

--

Cwestiwn 2

Mae'r Panel wedi gwneud newidiadau i sut y caiff costau a threuliau eu talu i aelodau cynghorau cymuned a thref. Ydych chi'n cytuno ag ychwanegu'r elfen "nwyddau traul"?

Ydw

Nac ydw

Dim barn

<input type="checkbox"/>
<input type="checkbox"/>
<input type="checkbox"/>

Unrhyw sylwadau ychwanegol

--

Cwestiwn 3

Bydd y Panel yn casglu tystiolaeth gan brif gynghorau i edrych ar p'un a yw llwyth gwaith aelodau etholedig wedi newid, a sut y mae wedi newid, i lywio Penderfyniadau'n y dyfodol. Ydych chi'n fodlon y dylai'r Panel gynnwys yr adolygiad hwn yn ei gynllun gwaith ar gyfer y dyfodol ac adeiladu sylfaen dystiolaeth i gefnogi penderfyniadau?

Ydw	<input type="checkbox"/>
Nac ydw	<input type="checkbox"/>
Dim barn	<input type="checkbox"/>

Unrhyw sylwadau ychwanegol

Cwestiwn 4

Rydym wedi lleihau maint yr adroddiad yn sylweddol eleni er mwyn canolbwyntio ar benderfyniadau allweddol a wnaed, ac yn bwriadu gwneud mwy o ddefnydd o'r wefan i roi arweiniad hawdd i ddefnyddwyr. Mae'r dull hwn hefyd yn cyd-fynd â'n hymdrechion i barchu'r heriau sy'n ein hwynebu wrth ddiogelu ein planed.

Sut y byddech chi'n dymuno cael gafael ar wybodaeth ac arweiniad gan y Panel?
(dewiswch bob un sy'n berthnasol)

Adroddiad cryno gyda dolenni at ganllawiau manwl	<input type="checkbox"/>
Canllawiau hawdd eu defnyddio	<input type="checkbox"/>
Cwestiynau Cyffredin	<input type="checkbox"/>
Gwefan	<input type="checkbox"/>
Y Cyfryngau Cymdeithasol	<input type="checkbox"/>
Digwyddiadau gwybodaeth	<input type="checkbox"/>
Arall	<input type="checkbox"/>

Os arall, rhowch fanylion:

Ydych chi wedi profi unrhyw heriau wrth gael gafael ar ein canllawiau a'n gwybodaeth neu wrth geisio eu deall drwy ein gwefan? Rhowch wybod i ni sut y gallwn wneud pethau'n haws i chi.

Cwestiwn 5

Mae'r panel yn bwriadu cynnal cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu â'r holl randdeiliaid perthnasol dros y flwyddyn nesaf fel rhan o'r gwaith o ddatblygu ei gynlluniau ar gyfer y dyfodol ac adeiladu ei dystiolaeth a'i strategaeth ymchwil.

Oes gennych chi unrhyw sylwadau a fyddai'n helpu'r Panel i gynnal y digwyddiadau ymgysylltu hyn?

Er enghraifft, a ydych chi'n ffafrio polau ar-lein, cynnal digwyddiadau ymgysylltu, yn rhithiol neu wyneb yn wyneb, pa grwpiau ddylai gymryd rhan, sut allwn ni ymgysylltu ag ymgeiswyr posibl ac ati.

A hoffech gymryd rhan mewn unrhyw ddigwyddiadau ymgysylltu yn y dyfodol?

Hoffwn
Na hoffwn
Manylion cyswllt